# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-16-06(t.11)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 15 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Gwybodaeth Ychwanegol oddi wrth Comisiwn Hawliau Anabledd ar Ymchwiliad Anghydraddoldebau Iechyd

Testun y llythyr dyddiedig 24 Hydref oddi wrth Gyfarwyddwr y Comisiwn Hawliau Anabledd at Gadeirydd y Pwyllgor yw'r canlynol:

Hoffem ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am drafod ein hymchwiliad iechyd 'Triniaeth Gyfartal: Cau'r Bwlch, Adroddiad Cymru', yn y cyfarfod ar 11 Hydref.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Jenny Randerson AC, fe wnaethom addo cyflwyno rhagor o wybodaeth am ofal iechyd mewn carchardai. Mae paragraff 4.7.3 ein 'Papur Tystiolaeth', yn cynnwys yr adran ganlynol ar iechyd mewn Carchardai.

**"4.7.3 Pobl mewn carchardai**

Mae tua 10% o bobl mewn carchardai yn dioddef seicosis a thros hanner ?hyw fath o niwrosis (Singleton et al 1998). Mae'r ddwy garfan hefyd yn debygol o ddioddef problemau iechyd corfforol (ibid). Nid yw tua hanner o'r rhai sydd yn y ddalfa wedi cofrestru ?eddyg teulu cyn cael eu hanfon i'r carchar (Prison Reform Trust 2005). Ni wyddom faint o bobl mewn carchardai sydd ag anableddau dysgu: ystyrir bod yr amcangyfrifon cyfredol yn rhy isel (Myers 2004).

Cyfrifoldeb Byrddau Iechyd Lleol Cymru ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol Lloegr yw darparu gofal iechyd mewn carchardai bellach, ac mae gan garcharorion yr hawl i dderbyn 'yr un lefel o wasanaethau iechyd sydd ar gael i'r cyhoedd o dan y GIG' (Y Gwasanaeth Carchardai 2005). Er bod pryderon wedi'u mynegi am safon y ddarpariaeth sydd ar gael, mae'r safonau'n gwella'n raddol (Triggle 2006)."

Mae holl gyhoeddiadau'r CHA sy'n ymwneud ?146;r ymchwiliad hwn i'w gweld ar y wefan www.drc-gb.org/healthinvestigation
Gallwch ddarllen y 'Papur Tystiolaeth' hwn yn www.drc.org.uk/docs/Evidence_paper_2006.doc

Rydym yn falch bod y Pwyllgor wedi cytuno i drafod y mater hwn eto cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn adolygu ymateb cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad a chymharu'r cynnydd a fu gydag argymhellion yr adroddiad.

Croeso i'r Pwyllgor gysylltu ?i am ragor o fanylion.

**William Bee**
**Cyfarwyddwr CHA Cymru**